Dŵr Cymru
Welsh Water

# Cynllun Taliadau'r Gwasanaethau Datblygu

2023-24



dwrcymru.com

PAB 0126

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Diffinio'r termau | 3 |
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Sut i gysylltu â ni | 5 |
| 3. | Sut i dalu | 5 |
| 4. | Gwasanaethau sy'n Agored i Gystadleuaeth | 5 |
| 5. | Y fethodoleg taliadau | 5 |
| 6. | Cwynion | 6 |
| 7. | Cyn cynllunio, chwiliadau a chanfod lleoliad asedau | 7 |
| 8. | Cysylltiadau dŵr | 9 |
| 9. | Hunan-osod | 16 |
| 10. | Carthffosiaeth | 19 |
| 11. | Taliadau seilwaith | 21 |


**Y stori nid er elw**
Dysgwch ymhle y mae'ch arian yn cael ei fuddsoddi yn **dwrcymru.com/gwahanol**

# Diffinio'r termau

Yn y Cynllun hwn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

'**Ailddatblygiad**' yw safle lle newidir y cysylltiadau neu'r defnydd ohonynt. Mae ailddatblygiad yn cynnwys, er enghraifft, adeiladu tai newydd yn lle hen dai, troi tŷ mawr yn fflatiau, cyfuno dau eiddo neu ragor yn un, addasu ffatri i weithredu fel swyddfeydd, ymestyn ffatri neu swyddfeydd, a newid cyflenwad dŵr adeilad i fod yn gyflenwad domestig.

'**Annomestig**' yw safle/cwsmer nad yw'n safle/cwsmer domestig. Gweler isod am ddiffiniad o safle domestig.

'**Cwmni**' yw Dŵr Cymru Cyfyngedig.

'**Cysylltiad**' yw cysylltiad sy'n cael ei reoleiddio gan y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall, sy'n caniatáu i'r cwsmer gael budd o wasanaethau'r Cwmni.

'**Deddf**' yw Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac unrhyw ddiwygiadau iddi.

'**Dibenion domestig**' yn gyffredinol, yw cyflenwad at ddibenion yfed, golchi, coginio, gwres canolog ac iechyd, fel y'i diffinnir yn Adran 218 o'r Ddeddf.

'**Domestig**' yw unrhyw adeilad neu ran o adeilad y mae pobl yn byw ynddo fel tŷ annedd, p'un a yw'n dŷ annedd preifat neu beidio, neu, os yw'n wag, sy'n debygol o gael ei ddefnyddio felly. (Fel y'i disgrifir yn Adran 219 o'r Ddeddf). Yn benodol, mae tŷ yn cynnwys fflatiau ond nid carafanau na chartrefi symudol sydd wedi'u lleoli dros dro.

'**Pibell gyflenwi**' – unrhyw ran o bibell wasanaeth nad yw'n ofynnol i'r Cwmni ei gosod o dan Adrannau 45 a 46 o'r Ddeddf.

'**Pibell wasanaeth**' yw'r bibell (neu ran o'r bibell) sy'n cyflenwi dŵr o brif bibell y Cwmni i unrhyw safle, fel y'i diffinnir yn Adran 219 o'r Ddeddf.

'**Safle**' yw adeilad parhaol, ei dir ac atodion neu unrhyw gyfleuster lle y darperir cyflenwad dŵr neu lle rhyddheir dŵr gwastraff. Mae adeilad yn cynnwys tŷ neu ran o adeilad y gellir ei feddiannu ar wahân.

'**Tâl seilwaith**' yw tâl seilwaith am ddŵr neu dâl seilwaith am garthffosiaeth.

'**Treth ar Werth**' neu 'TAW' yw'r dreth ar werth a godir o dan Ddeddf Treth ar Werth 1994.

# 1. Cyflwyniad

Dŵr Cymru Cyfyngedig (y Cwmni) sy'n pennu'r taliadau a gynhwysir yn y ddogfen cynllun taliadau yma. Maent yn ategu'r taliadau a bennir yng Nghynllun Taliadau'r Cwmni a'r cynlluniau taliadau eraill y mae'r Cwmni'n eu cyhoeddi.


Bydd y taliadau hyn mewn grym o 1 Ebrill 2023 nes iddynt gael eu diddymu, eu diwygio, eu disodli neu eu haddasu mewn rhyw ffordd arall gan y Cwmni.

Yn achos unrhyw wasanaeth arall y mae'r Cwmni'n ei ddarparu ac y codir tâl amdano (e.e. darparu cyfleusterau neu ryddhau hawliau) gall y Cwmni godi'r fath daliadau ag y gwêl yn briodol mewn perthynas â chost darparu'r gwasanaeth. Lle bo gwaith yn cael ei gyflawni heb fod tâl safonol ar ei gyfer, byddwn ni'n darparu pris ar eich cyfer. Bydd hyn yn cynnwys costau am yr holl waith y mae angen ei wneud er mwyn cyflawni'r cynllun o dan sylw. Gellir gofyn i chi dalu'r rhain ymlaen llaw.

Mae'r Cwmni'n gweithredu yn ardal a nodir ar y map isod.

Mae'r Cwmni'n cynhyrchu nifer o gyhoeddiadau gwybodaeth i gwsmeriaid am y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Ceir manylion y rhain ar ein gwefan yn **dwrcymru.com**

Ers Ebrill 2018 mae cwmnïau dŵr sy'n gweithredu yn llwyr neu'n bennaf yng Lloegr wedi gorfod codi tâl am gysylltiadau newydd (prif bibellau a gwasanaethau) yn unol â rheolau diwygiedig OFWAT ar daliadau. Nid yw'r newid hwn yn berthnasol i Ddŵr Cymru Welsh Water ar hyn o bryd, gan gynnwys yr ardaloedd o Loegr sy'n rhan o'n hardal weithredol.



## 2. Sut i gysylltu â ni

Os oes gennych ymholiadau am unrhyw wasanaethau a restrir yn y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â:

Gwasanaethau Datblygu
Dŵr Cymru Welsh Water
Blwch SB 3146
Linea
Fortran Road
Caerdydd
CF30 0EH

Ffôn: 0800 917 2652

E-bost: developer.services@dwrcymru.com

Gwefan:
dwrcymru.com/gwasanaethau-datblygu

## 3. Sut i dalu

Gall cwsmeriaid dalu gan ddefnyddio eu cardiau debyd/credyd unrhyw bryd, naill ai ar-lein yn y wefan uchod neu trwy ffonio ein llinell taliadau awtomatig 24 awr ar 0800 917 2652. Gall cwsmeriaid dalu gan ddefnyddio'r rhan fwyaf o gardiau credyd/debyd. Cofiwch fod â'ch cyfeirnod cwsmer wrth law.

## 4. Gwasanaethau sy'n Agored i Gystadleuaeth

Gall Datblygwyr ddewis pwy sy'n cyflawni rhai gweithgareddau penodol ar eu safleoedd. Gwaith sy'n agored i gystadleuaeth yw'r enw ar hyn, ac mae'n golygu y gall naill ai'r cwmni dŵr neu sefydliad priodol arall gyflawni'r gwaith. Mewn rhai achosion, er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol, bydd angen i ni gyflawni'r gwaith yma ein hunain. Cyhoeddwyd rhestr o wasanaethau sy'n agored i gystadleuaeth (h.y. y gall cyrff eraill eu cyflawni) fel atodiad i'r ddogfen hon.

## 5. Y fethodoleg ar gyfer taliadau

Cyfrifir taliadau ar sail 'o'r gwaelod i fyny' gan ddefnyddio modelau costio safonol y Cwmni. Mae costau uniongyrchol fel llafur, ffioedd contractwyr, peiriannau, offer a deunyddiau'n gynwysedig. Caiff gorbenion y Gwasanaethau Datblygu a'r busnes cyfanwerthu eu priodoli i'r costau uniongyrchol ar sail gyfrannol, a chynhwysir gorswm lle bo hynny'n briodol. Defnyddir yr un fethodoleg ar gyfer taliadau 'pris ar gais'.

O dan y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n effeithio ar gwmnïau sy'n gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru, cyfrifir taliadau am ddarparu dŵr ar gyfer pibellau tân pwrpasol neu ar gyfer cysylltiadau domestig lle bo'r diamedr yn >63mm, cynlluniau dŵr hunan-osod (gan gynnwys y tâl asedau), ffioedd caffael (gan gynnwys gwrthbwyso incwm) a'r taliadau gwyro fesul achos unigol. Bydd cost y cynllun yn seiliedig ar amcangyfrif o gost dylunio a chyflawni'r cynllun unigol ac ar ôl cwblhau'r gwaith, a byddwn ni'n paratoi cyfrif terfynol er mwyn sicrhau bod y swm terfynol a delir yn adlewyrchiad teg o'r costau a dynnwyd wrth gyflawni'r cynllun penodol yna. Rydyn ni wedi cynhyrchu cyfres o becynnau sampl hefyd yn rhan o'n datganiad o newidiadau o bwys, sy'n rhoi syniad o gost nifer o ddatblygiadau damcaniaethol. Mae rhagor o fanylion am y gwasanaethau hyn a ein gwefan.

# 6. Cwynion

Ein nod yw gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf, bob tro — ond gwyddom y gall pethau fynd o chwith o bryd i'w gilydd. Ein ffordd ddewisol o ddelio â chwynion yw dros y ffôn, gan mai dyma'r ffordd gyflymaf o'u datrys. Gall cwsmeriaid ein ffonio ar y rhif yma **0800 917 2652**.

Os ydych wedi ein ffonio a'ch bod am wneud cwyn o hyd, gallwch gysylltu drwy e-bost neu lythyr i sicrhau bod eich cwyn yn cyrraedd y tîm cywir, gan ddefnyddio'r cyfeiriad ar dudalen 5. Os na fyddwch yn fodlon ar yr ymateb i'ch cwyn, neu'r ffordd y cafodd eich cwyn ei thrin, gallwch ysgrifennu atom i ofyn am i un o'n Cyfarwyddwyr gynnal adolygiad. I wneud hyn, cysylltwch â ni, eto gan ddefnyddio'r cyfeiriad at dudalen 5. Os byddwn wedi adolygu eich cwyn yn llawn, a'ch bod yn credu y gallem fod wedi gwneud mwy, gallwch ofyn i'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr adolygu eich achos. Corff annibynnol yw hwn sy'n cynrychioli buddiannau cwsmeriaid ac yn ymchwilio i gwynion. Gallwch fynd i'w gwefan yn ccwater.org.uk, eu ffonio ar 0300 034 3333, neu ysgrifennu atynt yn:

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr
23 Stephenson Street,
Birmingham,
B2 4BH

Dim ond cwynion sydd eisoes wedi'u cyfeirio at y Cwmni y bydd CCWater yn ymchwilio iddynt fel rheol. Wrth ysgrifennu atynt, byddai'n ddefnyddiol amgáu copi o'r ymateb a gawsoch gan y Cwmni.

Os yw eich cwyn wedi cael ei hadolygu'n llawn gennym ni a gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, a'ch bod yn anfodlon o hyd, gallwch gysylltu â WATRS. Gwasanaeth dyfarnu annibynnol yw WATRS sy'n adolygu anghydfodau rhwng cwsmeriaid a chwmnïau lle nad yw'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr wedi gallu eu datrys a lle na allant wneud rhagor, a hynny am ddim. Mae'r manylion cyswllt yn dilyn; gallwch wneud cais trwy eu gwefan neu ofyn iddynt anfon ffurflen gais atoch.

**WATRS**
International Dispute Resolution Centre
70 Fleet Street, Llundain EC4Y 1EU

**0207 520 3801**
**watrs.org**

Gellir cyfeirio rhai cwynion at Ofwat o dan ddarpariaethau Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Eu manylion cyswllt yw:

**Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (OFWAT)**
**Centre City Tower**
**7 Hill Street Birmingham**
**B5 4UA**

**Ffôn:** 0121 644 7500

**Ebost:** mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Dylai unrhyw ohebiaeth ag Ofwat gynnwys copïau o ohebiaeth gyda'r Cwmni a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

# 7. Cyn cynllunio, chwiliadau a chanfod lleoliad asedau

## Cyn cynllunio

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl |
|---|---|---|
| Ymateb ysgrifenedig cyn cynllunio | Ar gyfer dŵr a dŵr gwastraff. Bydd ein gwasanaeth cyn cynllunio'n darparu gwybodaeth o ran a all ein hasedau gynnal eich datblygiad ai peidio. Er mwyn darparu'r gwasanaeth yma, byddwn ni'n gofyn am unrhyw wybodaeth berthnasol am eich datblygiad, gan gynnwys graddfa/nifer yr adeiladau newydd, ac unrhyw strategaethau draenio y bwriedir eu defnyddio. Cyfeiriwch at adran Gwasanaethau Datblygu ein gwefan am y wybodaeth y gallwn ei darparu yn rhan o'r gwasanaeth yma. | £72.76 + TAW |

## Planiau o'n hasedau

Byddwn ni'n ystyried ceisiadau am blaniau o'n hasedau yn unol â'n rhwymedigaethau o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, ac yn codi'r tâl a ganiateir am eu darparu. Mae planiau o'n hasedau y tu hwnt i gwmpas TAW.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl |
|---|---|---|
| Plan Dŵr (A3/A4)<br><br>Plan Carthffosiaeth (A3/A4)<br><br>Plan Dŵr (A1/A0)<br><br>Plan Carthffosiaeth (A1/A0) | Codir tâl fesul plan. Graddfa o 1:1250 neu 1:2500. Dylid nodi ein bod ni'n darparu'r gwasanaeth hwn ar gyfer safleoedd o fewn ein hardal weithredol yn unig.<br><br>Gallwch weld y cofnodion hyn am ddim yn ein swyddfeydd dynodedig hefyd.<br><br>I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Gwasanaethau Datblygu. | £6.60<br>(Y tu hwnt i gwmpas TAW) |

## Chwiliadau draenio a dŵr

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl |
|---|---|---|
| Chwiliadau draenio a dŵr at ddibenion trosglwyddo eiddo. | Dylid nodi ein bod ni'n darparu'r gwasanaeth hwn ar gyfer safleoedd o fewn ein hardal weithredol yn unig. | £6.46 + TAW |

# Arolygon o leoliad asedau

## Dŵr

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl |
|---|---|---|
| Ymweliad safle a chyflawni arolwg ar ben y tir o'r brif bibell ddŵr er mwyn rhoi syniad o'i lleoliad | Dylid nodi bod ein gallu i olrhain prif bibell ddŵr yn dibynnu ar ddeunydd y bibell. Ar y cyfan, mae ymarferion olrhain fel hyn yn effeithiol ar gyfer pibellau metel yn unig. | Pris ar gais + TAW |
| Cyflawni arolwg mewnol o brif bibell ddŵr at ddibenion canfod ei lleoliad | Oherwydd y technegau arolygu arbenigol y mae angen eu defnyddio, caiff pob safle ei asesu'n unigol. | Pris ar gais + TAW |
| Ymchwiliadau Twll Turio | Lle bo angen dilysu data o arolwg neu ganfod union ddyfnder y bibell, mae'n bosibl y bydd angen torri tyllau turio. | Pris ar gais + TAW |
| Ffi Goruchwylio | Lle caniateir i chi gyflawni eich gwaith ymchwilio eich hun, mae'n bosibl y bydd angen i ni oruchwylio'r gwaith ar y safle. | Pris ar gais + TAW |

## Gwastraff

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl |
|---|---|---|
| Cyflawni arolwg CCTV ar gyfer eiddo preswyl safonol lle bo'r garthffos yn llai na 225mm o ddiamedr | Cyflawni arolygon o leoliad a CCTV er mwyn canfod lleoliad, dyfnder, maint a chyflwr y garthffos/carthffosydd cyhoeddus perthnasol yn fras o fewn ffiniau'r safle | £256.59 + TAW |
| Cyflawni arolygon CCTV ar gyfer eiddo domestig safonol lle bo'r garthffos dros 225mm o ddiamedr, neu ar gyfer datblygiad masnachol neu breswyl mawr | Cyflawni arolygon o leoliad a CCTV er mwyn canfod lleoliad, dyfnder, maint a chyflwr y garthffos/carthffosydd cyhoeddus perthnasol yn fras. Oherwydd y technegau arolygu arbenigol y bydd eu hangen ar gyfer pibellau mawr iawn, caiff pob safle ei asesu'n unigol. | Pris ar gais + TAW |
| Ymchwiliadau Twll Turio | Lle bo angen dilysu data o arolwg neu ganfod union ddyfnder y bibell, mae'n bosibl y bydd angen torri tyllau turio. | Pris ar gais + TAW |
| Ffi Goruchwylio | Lle caniateir i chi gyflawni eich gwaith ymchwilio eich hun, mae'n bosibl y bydd angen i ni oruchwylio'r gwaith ar y safle. | Pris ar gais + TAW |

Dylid nodi ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau hyn ar gyfer asedau a leolir yn ein hardaloedd gweithredol yn unig, ac mae'r drefn yn wahanol ar gyfer ein rhwydweithiau dŵr a charthffosiaeth. Cyfeiriwch at y map ar flaen y llyfryn hwn am fanylion pellach.

# 8. Cysylltiadau dŵr

## Taliadau

Mae taliadau'n daladwy gan yr endid/person/pobl sy'n gwneud cais am gysylltiad, ac maent yn daladwy cyn creu'r cysylltiad fel rheol. Rhaid i bob safle fod â chysylltiad ar wahân. Dylid gosod mesurydd ar bob cysylltiad newydd. Lle bo System Taenellwr Tân Domestig ar eiddo o dan Fesurau Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011, ni chodir tâl am y dŵr a ddefnyddir at ddibenion diffodd tân.

Yr endid/person/pobl sy'n gwneud cais am gysylltiad newydd fydd yn gyfrifol am unrhyw daliadau gwasanaeth o ddyddiad creu'r cysylltiad/gosod y mesurydd, a byddant yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt nes hysbysir DCWW fel arall. Felly rhaid rhannu gwybodaeth am unrhyw newid mewn cyfrifoldeb yn brydlon, gan gynnwys dyddiadau, darlleniadau o'r mesurydd a manylion yr endid/person/pobl fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros y taliadau gwasanaeth i'n galluogi ni i filio'n gywir. Yn unol ag Adran 144 (3) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, rydyn ni'n cadw ein hawl i anrhydeddu'r newid o'r dyddiad pan ddaw'r wybodaeth i law yn unig, ac nid yn ôl-weithredol. Byddem yn annog eich sefydliad felly i'n hysbysu ni'n brydlon (h.y. cyn pen dim mwy na 14 diwrnod) am unrhyw newidiadau, fel eich bod chi'n ildio'ch cyfrifoldeb dros y taliadau gwasanaeth ar yr adeg briodol. Lle bo gwaith yn cael ei gyflawni heb fod yna dâl safonol ar ei gyfer, byddwn ni'n darparu pris ar eich cyfer. Mae dyfynbrisiau'n ddilys am 6 mis – os na dderbynnir y dyfynbris o fewn y cyfnod hwn bydd angen cyflwyno cais newydd ynghyd â blaendal na ellir ei ad-dalu (mae manylion y taliad dros y ddalen).

## Treth ar Werth (TAW)

Codir TAW ar y gyfradd safonol am bob taliad am gysylltiad newydd, heblaw lle darperir y cysylltiad yn rhinwedd y gwaith o adeiladu'r adeilad, os felly bydd yn gymwys am gyfradd o sero neu'r gyfradd TAW is (5%) yn unol â chanllawiau CThEF ar Adeiladau ac Adeiladu (Hysbysiad TAW 708). Er enghraifft, bydd adeiladu anheddiad newydd yn gymwys am gyfradd TAW o sero; a gallai'r gyfradd TAW is (5%) fod yn gymwys ar gyfer rhai safleoedd sy'n cael eu hadnewyddu neu eu trosi at ddibenion preswyl. Mae'r holl daliadau cysylltu'n daladwy ymlaen llaw. Codir TAW ar yr holl daliadau am gysylltiadau newydd trwy Hunan-osod.

Cyflwynodd Cyllid a Thollau EF (CThEF) ofyniad newydd ar 1 Mawrth 2021 sy'n effeithio ar sut mae gwasanaethau adeiladu yn cael eu cyflenwi rhwng busnesau adeiladu, sef y tâl rifersiwn domestig ar gyfer gwasanaethau adeiladu.

Ond, mae CThEF yn derbyn nad yw'r gofyniad newydd yma'n berthnasol i'n trefniadau ni o ran taliadau am gysylltiadau am fod yr incwm yn ymwneud ag addasu rhwydweithiau DCWW sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau dŵr glân a dŵr gwastraff ar gyfer ein cwsmeriaid.

Felly codir TAW ar ein dyfynbrisiau a'n hanfonebau am daliadau yn y ffordd arferol o hyd lle bo hynny'n berthnasol, ac ni fyddant yn dod o fewn cwmpas trefniadau'r tâl rifersiwn.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 18 o lawlyfr technegol ar lein CThEF y gellir ei ddarllen yn www.gov.uk.

## Maint Cysylltiadau

Maint safonol cysylltiadau'r cwmni ar gyfer eiddo domestig neu fasnachol yw 25mm o ddiamedr allanol, neu gallwn ddarparu cysylltiadau â diamedr allanol o 32mm os yw'r cwsmer yn gosod system taenellu tân domestig sy'n cael ei bwydo'n uniongyrchol (cyfeiriwch at ein dogfen ganllaw am systemau taenellu tân sydd ar ein gwefan). Bydd angen cyflwyno cais a blaendal dylunio ar wahân ar gyfer cysylltiadau dros 63mm er mwyn talu'r costau gweinyddol a dylunio a dynnir.

## Rheoli Traffig

Lle bo angen rheoli traffig er mwyn cyflawni cysylltiad dŵr newydd yn ddiogel, codir tâl am 'Ffordd fawr neu lle bo angen rheoli traffig' dim ots pa fath o ffordd sydd o dan sylw. Lle bo rheolaeth ar draffig yn rhan o'r tâl cysylltu newydd, bydd hyn yn cynnwys goleuadau traffig hyd at dair ffordd. Lle bo angen mesurau rheoli traffig y tu hwnt i hynny, codir tâl ychwanegol ar sail 'pris ar gais'.

**Hysbysiad Pwysig:**

Ychwanegir Taliadau Trwydded Agor Ffordd, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Rheoli Traffig Ffordd 2004, at daliadau am gysylltiadau newydd wrth eu cyflwyno yn ardal weithredu'r Cwmni.

## Ffi Ymgeisio

Codir blaendal o £94.54 plws TAW ar y gyfradd safonol na ellir ei ad-dalu ar gyfer pob cais unigol.

## Cysylltiadau Newydd

Mae dwy gydran i'r taliadau am gysylltiadau newydd:

1. Tâl cysylltu
2. Gweithgareddau nad ydynt yn waith adeiladu

**Tâl cysylltu**
Mae'r tâl cysylltu'n cynnwys cyflenwi deunyddiau'r gwaith dŵr a chyflawni'r cysylltiad ei hun, gan gynnwys unrhyw arolygon neu archwiliadau angenrheidiol.

**Gweithgareddau nad ydynt yn waith adeiladu**
Mae gweithgareddau nad ydynt yn waith adeiladu'n cynnwys derbyn y cais, adolygu'r cais, cyhoeddi'r dyfynbris, derbyn y taliadau, cyhoeddi hysbysiadau'r gwaith, diweddaru'r cofnodion a chyflawni archwiliadau o ansawdd.

**Cysylltiadau cyntaf a dilynol**
Codir tâl am gysylltiadau dilynol ar gyfradd is er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad yn yr amser a gymerir i gyflawni'r gweithgareddau uchod lle bo'r cysylltiadau cyntaf a'r rhai dilynol yn cael eu cyflawni'r un pryd. Caiff y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cysylltiad cyntaf eu hadfer trwy'r ffi ymgeisio na ellir ei had-dalu.

## Tâl seilwaith

Lle bo eiddo'n cael ei gysylltu â'r rhwydwaith am y tro cyntaf, gellir codi taliadau seilwaith. Gweler tudalen 22 o'r ddogfen hon am fanylion pellach.

## Cysylltiadau safonol

Mae cysylltiad 25mm yn cynnwys hyd at 2 fetr cyntaf y bibell, a chyflenwi a gosod y mesurydd.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer y tir | 401.97 |
| Tir heb ei ddatblygu | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu raean | 559.49 |
| Llwybr cerdded | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,117.51 |
| Ffordd fach | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,436.88 |
| Ffordd fawr neu lle bo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt trwy rolio'n boeth, a darparu rheolaeth ar draffig os oes angen | 2,086.69 |
| Costau ychwanegol am osod ar dir halogedig | Codir tâl ychwanegol am ddarparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 68.88 |

## Cysylltiadau 32mm

Mae cysylltiad 32mm yn cynnwys hyd at 2 fetr cyntaf y bibell, cyflenwi a gosod y mesurydd

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer y tir | 404.43 |
| Tir heb ei ddatblygu | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu raean | 561.96 |
| Llwybr cerdded | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,119.97 |
| Ffordd fach | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,439.34 |
| Ffordd fawr neu lle bo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt trwy rolio'n boeth, a darparu rheolaeth ar draffig os oes angen | 2,089.15 |
| Costau ychwanegol am osod ar dir halogedig | Codir tâl ychwanegol am ddarparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 70.32 |

## Cysylltiadau Domestig Mwy

Lle bo'r cwsmer yn dewis gosod system taenellu tân sy'n cael ei fwydo'n uniongyrchol a lle bo angen cysylltiad domestig mwy nag arfer, gallwn ddarparu cysylltiad domestig 32mm. Mae hyn yn cynnwys hyd at y 2 fetr cyntaf y bibell, cyflenwi a gosod y mesurydd.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer y tir | 568.64 |
| Tir heb ei ddatblygu | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu raean | 930.05 |
| Llwybr cerdded | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,439.53 |
| Ffordd fach | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,841.56 |
| Ffordd fawr neu lle bo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt trwy rolio'n boeth, a darparu rheolaeth ar draffig os oes angen | 2,564.67 |
| Costau ychwanegol am osod ar dir halogedig | Codir tâl ychwanegol am ddarparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 46.46 |

## Cysylltiad safonol ar bibellau cyflenwi cyffredin

Yn cynnwys hyd at 2 fetr cyntaf y bibell

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer y tir | 335.90 |
| Tir heb ei ddatblygu | Cloddio ac adfer wyneb pridd, glaswellt neu raean | 697.31 |
| Llwybr cerdded | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,129.52 |
| Ffordd fach | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,569.40 |
| Ffordd fawr neu lle bo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt trwy rolio'n boeth, a darparu rheolaeth ar draffig os oes angen | 2,331.93 |
| Costau ychwanegol am osod ar dir halogedig | Codir tâl ychwanegol am ddarparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 68.88 |

## Cysylltiadau Maniffold

Ar gyfer 4 neu 6 chysylltiad allanol. Cysylltiadau 25mm yn unig.
Yn cynnwys hyd at 2 fetr cyntaf y bibell, cyflenwi a gosod y mesuryddion.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
| --- | --- | --- |
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer y tir | 1,766.04 |
| Tir heb ei ddatblygu | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu raean | 2,181.70 |
| Llwybr cerdded | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 2,533.19 |
| Ffordd fach | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 3,527.95 |
| Ffordd fawr neu lle bo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt trwy rolio'n boeth, a darparu rheolaeth ar draffig os oes angen | 3,720.91 |
| Costau ychwanegol am osod ar dir halogedig | Codir tâl ychwanegol am ddarparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 219.96 |

## Cysylltiadau cangen â mesurydd allanol

Dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm.
Yn cynnwys hyd at 2 fetr cyntaf y bibell, a chyflenwi a gosod y mesurydd.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
| --- | --- | --- |
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer y tir | 1,249.17 |
| Tir heb ei ddatblygu | Cloddio ac adfer wyneb pridd, glaswellt neu raean | 1,618.04 |
| Llwybr cerdded | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 2,113.70 |
| Ffordd fach | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 2,729.31 |
| Ffordd fawr neu lle bo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt trwy rolio'n boeth, a darparu rheolaeth ar draffig os oes angen | 2,799.61 |
| Costau ychwanegol am osod ar dir halogedig | Codir tâl ychwanegol am ddarparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 300.72 |

## Cysylltiadau cangen â mesurydd mewnol

Dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm. Yn cynnwys hyd at 2 fetr cyntaf y bibell. Cyfeiriwch at yr adran 'Cyflenwi Mesurydd' am gostau gosod mesuryddion unigol.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer y tir | 801.91 |
| Tir heb ei ddatblygu | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu raean | 1,024.29 |
| Llwybr cerdded | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,467.09 |
| Ffordd fach | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 1,786.47 |
| Ffordd fawr neu lle bo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt trwy rolio'n boeth, a darparu rheolaeth ar draffig os oes angen | 2,436.28 |
| Costau ychwanegol am osod ar dir halogedig | Codir tâl ychwanegol am ddarparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 122.04 |

## Metr ychwanegol o bibell

Cyflenwi a gosod pob metr ychwanegol (neu ran o fetr) o bibell ar gyfer y math o arwyneb o dan sylw.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Dim cloddio | Dim angen cloddio nac adfer y tir | 20.68 |
| Tir heb ei ddatbkygu | Cloddio ac adfer arwyneb pridd, glaswellt neu raean | 59.94 |
| Llwybr cerdded | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 191.64 |
| Ffordd fach | Cloddio ac adfer arwyneb tarmac neu goncrit plaen | 295.17 |
| Ffordd fawr neu lle bo angen rheoli traffig | Cloddio ac adfer asffalt trwy rolio'n boeth, a darparu rheolaeth ar draffig os oes angen | 405.51 |
| Tâl ychwanegol am osod mewn tir halogedig | Codir tâl ychwanegol am ddarparu a gosod ffitiadau sy'n addas ar gyfer cysylltiadau ar dir halogedig | 4.47 |

## Cyflenwi mesuryddion

Hyd at a chan gynnwys mesurydd 30mm

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Hunan-osod ar safle amlddeiliadaeth | Cyflenwi mesurydd, cyflawni archwiliad gwasanaeth, cofnodi manylion y cwsmer | 71.03 |
| Safle amlddeiliadaeth | Cyflenwi a gosod mesurydd, cyflawni archwiliad/dilysu'r gwasanaeth, cofnodi manylion y cwsmer | 208.35 |

## Taliadau Eraill

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Mynediad i dir | Cael caniatâd/caniatadau mynediad i dir, y ffioedd cysylltiedig ac unrhyw daliadau iawndal | Pris ar gais |
| Cau ffordd | Cael cydsyniad i gau ffyrdd, codi arwyddion ychwanegol a rheoli traffig | Pris ar gais |
| Ymweliad aflwyddiannus | Lle bwriedir cyflawni cysylltiad 'heb gloddio' ac nad yw'r safle wedi cael ei gloddio mewn ffordd briodol lle nad yw'n bosibl cyflawni'r gwaith yn ddiogel, byddwn ni'n codi tâl am ymweliad aflwyddiannus. Y tâl a nodir yw'r uchafswm a godir | 331.15 |
| Trwydded i agor ffordd | Taliadau am y drwydded i agor y ffordd a'r costau cysylltiedig | Pris ar gais |
| Rheolaeth ychwanegol ar draffig | Darparu rheolaeth ychwanegol ar draffig y tu hwnt i oleuadau tair ffordd | Pris ar gais |
| Archwiliad o ansawdd cysylltiad newydd | Ymweliad cyntaf | Dim tâl |
| Archwiliad o ansawdd cysylltiad newydd | Cost fesul ymweliad ychwanegol | 27.52 |
| Archwiliad ychwanegol ar ffos | Lle bo angen archwilio ffos y tu hwnt i'r archwiliad cyntaf, codir tâl am hynny | 27.52 |
| Gwaith adfer | | Pris ar gais |

# 9. Hunan-osod

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Cytundeb Cyfreithiol | Paratoi cytundeb cyfreithiol | 91.04 |
| Cais am bwynt cysylltu | Cadarnhau hyfywedd cyflenwi'r datblygiad arfaethedig | 348.88 |

## Cysylltiadau safonol

25mm

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl am Gysylltiad Cyntaf (£) | Tâl am Gysylltiadau Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Y Cwmni'n gosod y mesurydd | Asesu'r cais, darparu dyfynbris, prosesu'r taliad, cyflenwi a gosod y mesurydd. | 142.99 | 129.92 |
| PLG yn gosod y mesurydd | Asesu'r cais, darparu dyfynbris, prosesu'r taliad. PLG yn casglu'r mesurydd o storfa DCWW ac yn cyflawni'r gwaith gosod. | 88.04 | 74.97 |

## Cysylltiadau safonol

32mm

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl am Gysylltiad Cyntaf (£) | Tâl am Gysylltiadau Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Y Cwmni'n gosod y mesurydd | Asesu'r cais, darparu dyfynbris, prosesu'r taliad, cyflenwi a gosod y mesurydd. | 142.99 | 129.92 |
| PLG yn gosod y mesurydd | Asesu'r cais, darparu dyfynbris, prosesu'r taliad. PLG yn casglu'r mesurydd o storfa DCWW ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 88.04 | 74.97 |

## Cysylltiadau domestig mwy

32mm

Dyma'r math o gysylltiad sydd ei angen fel rheol lle bo cwsmeriaid yn gosod system taenellu tân sy'n cael ei fwydo'n uniongyrchol. Ar gyfer mesuryddion 32mm, gosodir y blwch ffin a'r mesurydd fel un uned. Ni allwn gynnig tâl ar wahân i DCWW osod y mesurydd. Os yw'r datblygwr am i DCWW gyflawni'r gwaith yma, codir tâl ar y Gyfradd berthnasol am Gysylltiad Newydd.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl am Gysylltiad Cyntaf (£) | Tâl am Gysylltiadau Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| PLG yn gosod y mesurydd | Asesu'r cais, darparu dyfynbris, prosesu'r taliad. PLG yn casglu'r mesurydd o storfa DCWW ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 275.01 | 261.93 |

## Cysylltiadau Maniffold

25mm

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl am Gysylltiad Cyntaf (£) | Tâl am Gysylltiadau Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Y Cwmni'n gosod y mesurydd | Asesu'r cais, darparu dyfynbris, prosesu'r taliad, cyflenwi a gosod y mesuryddion. | 142.99 | 129.92 |
| PLG yn gosod y mesurydd | Asesu'r cais, darparu dyfynbris, prosesu'r taliad. PLG yn casglu'r mesuryddion o storfa DCWW ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 88.04 | 74.97 |

## Cysylltiadau Cangen

Dros 32mm a hyd at a chan gynnwys 63mm. Cyfeiriwch at yr adran 'Cyflenwi Mesuryddion' am gostau gosod mesuryddion unigol.

**Â mesurydd mewnol**

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl am Gysylltiad Cyntaf (£) | Tâl am Gysylltiadau Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| Y Cwmni'n gosod y mesurydd | Asesu'r cais, darparu dyfynbris, prosesu'r taliad, cyflenwi a gosod y mesurydd. | 21.97 | 8.89 |
| PLG yn gosod y mesurydd | Asesu'r cais, darparu dyfynbris, prosesu'r taliad. PLG yn casglu'r mesurydd o storfa DCWW ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 21.97 | 8.89 |

**Â mesurydd allanol**
Oherwydd dyluniad y cysylltiadau hyn, gosodir y blwch ffin a'r mesurydd fel un uned. Ni allwn gynnig tâl ar wahân i DCWW osod y mesurydd. Os yw'r datblygwr am i DCWW gyflawni'r gwaith yma, codir tâl ar y Gyfradd berthnasol am Gysylltiadau Newydd.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl am Gysylltiad Cyntaf (£) | Tâl am Gysylltiadau Dilynol (£) |
|---|---|---|---|
| PLG yn gosod y mesurydd | Asesu'r cais, darparu dyfynbris, prosesu'r taliad. PLG yn casglu'r mesurydd o storfa DCWW ac yn cyflawni'r gwaith gosod | 165.16 | 152.08 |

# 10. Carthffosiaeth

Mae'r taliadau yn yr adran hon y tu hwnt i gwmpas TAW.

## Cysylltiadau newydd â charthffosydd

**Goruchwylio cysylltiadau â charthffosydd:**

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| 1-25 eiddo | Yn ystod oriau swyddfa: dydd Llun-Gwener: 8.30am-5.00pm | 207.00 |
| 26+ eiddo | Yn ystod oriau swyddfa: dydd Llun-Gwener: 8.30am-5.00pm | 364.65 |
| Unrhyw nifer o eiddo | Y tu hwnt i oriau swyddfa | Pris ar gais |

## Cytundeb i adeiladu dros ben neu ger carthffos gyhoeddus/draen ochrol

Lle bo angen caniatâd y Cwmni i adeiladu dros ben neu ger carthffos gyhoeddus/draen ochrol cyn dechrau gwaith adeiladu. Bydd y taliadau hyn yn berthnasol i gytundebau lle bo'r garthffos gyhoeddus neu'r draen ochrol hyd at 225mm o ddiamedr. Cyfeiriwch at y ddogfen ganllaw ar lein, sydd ar adran Gwasanaethau Datblygu ein gwefan, er mwyn canfod y ffi sy'n berthnasol i'ch datblygiad. Bydd angen cytundeb wedi ei deilwra i amddiffyn asedau yn achos asedau sydd dros 225mm o ddiamedr, a darperir y pris ar gais yn hynny o beth.

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Caniatâd trwy lythyr | Caniatâd trwy lythyr lle nad oes unrhyw addasiadau i'n rhwydwaith | 110.21 |
| Caniatâd trwy lythyr | Caniatâd trwy lythyr ar ôl cwblhau addasiadau i'n rhwydwaith | 444.04 |
| Caniatâd trwy Gytundeb Cyfreithiol | Caniatâd trwy Gytundeb Cyfreithiol gyda neu heb addasiadau | 507.57 |

## Cytundeb mabwysiadu draen ochrol – un eiddo

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Mabwysiadu draeniau ochrol | Dilysu a goruchwylio technegol | 511.75 |
| Mabwysiadu draeniau ochrol gan gynnwys comisiynu gorsaf bwmpio | Dilysu, goruchwylio a chomisiynu technegol gan gynnwys gorsaf bwmpio | 2,722.31 |

## Cytundebau mabwysiadu carthffos - eiddo lluosog

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| 2 i 5 eiddo | Dilysu a goruchwylio technegol | 1,248.93 |
| 6 i 25 eiddo | Dilysu a goruchwylio technegol | 2,034.07 |
| Mwy na 25 eiddo | Dilysu a goruchwylio technegol | 3,399.23 |

**Cytundeb mabwysiadu carthffos gan gynnwys comisiynu gorsaf bwmpio**

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| 2 i 5 eiddo | Dilysu, goruchwylio a chomisiynu technegol gan gynnwys gorsaf bwmpio | 3,459.49 |
| 6 i 25 eiddo | Dilysu, goruchwylio a chomisiynu technegol gan gynnwys gorsaf bwmpio | 4,244.63 |
| Mwy na 25 eiddo | Dilysu, goruchwylion a chomisiynu technegol gan gynnwys gorsaf bwmpio | 5,609.79 |

## Cytundebau mabwysiadu carthffos – ffioedd cyfreithiol

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Mabwysiadu carthffosydd a draeniau ochrol newydd ac sy'n bodoli eisoes a'r trosglwyddiadau tir cysylltiedig, gan gynnwys;<br>— Cytundebau mabwysiadu<br>— Cytundebau hawddfraint<br>— Gweithred amrywio<br>— Gweithred rhyddhau<br>— Dileu hysbysiadau unochrog<br>— Amser ychwanegol ar gyfer tir heb ei gofrestru | Mabwysiadu lle nad oes yna gytundeb mabwysiadu ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r ffioedd hyn yn ogystal â'r ffioedd dilysu ac arolygu technegol a bennwyd uchod, ac maent yn berthnasol i bob cytundeb newydd. Bydd y ffioedd cymwys yn amrywio oherwydd amgylchiadau unigryw pob datblygiad. | Pris ar gais |

## Gwyro/Addasu Carthffosydd neu Ddraeniau Ochrol gan drydydd parti lle caniateir hynny

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Gwyro/Addasu Carthffosydd neu Ddraeniau Ochrol | Dilysu a goruchwylio technegol.<br>Y tâl a nodir yw'r isafswm a godir. | 745.98 |
| Paratoi cytundeb cyfreithiol a'r trosglwyddiadau tir cysylltiedig ar gyfer gwyriadau/addasiadau. Bydd hyn yn cynnwys:<br>– Cytundeb A185<br>– Hawddfraint A185<br>– Dileu hysbysiadau unochrog<br>– Amser ychwanegol ar gyfer tir heb ei gofrestru | Rhaid ategu cytundebau ag ernes yn unol â'n polisi ar gyfer gofynion diogelu | Pris ar gais |

Os bydd eich cais yn cynnwys nifer o gyflwyniadau technegol diwygiedig neu rannol dechnegol, neu os oes angen i ni gyflawni ymweliadau niferus â'r safle oherwydd gwaith diffygiol, gallwn geisio adfer unrhyw costau ychwanegol rhesymol gennych.

# 11. Taliadau seilwaith

Codir taliadau seilwaith am gyflenwadau at ddibenion domestig o dan Adran 146 o'r Ddeddf ac Amod C o Drwydded Offeryn Penodi'r Cwmni (fel y'i diwygiwyd).

Mae cysylltiadau newydd yn cynyddu'r pwysau ar systemau dŵr a charthffosiaeth, a gallai hyn olygu y bydd angen gwneud gwaith arnynt yn y pen draw. Felly, yn ogystal ag unrhyw dâl a godir am gysylltiadau dŵr neu garthffosiaeth a/neu daliadau gosod, codir tâl seilwaith am gysylltiadau dŵr newydd a thâl seilwaith am gysylltiadau carthffosiaeth newydd hefyd.

Bydd taliadau seilwaith yn daladwy ar ôl cysylltu'r cyflenwad dŵr. Codir y taliadau am bob gwasanaeth a ddarperir; lle darperir cysylltiadau dŵr a charthffosiaeth, bydd y ddau daliad seilwaith yn daladwy adeg y cam yma. Os na ddarperir gwasanaethau carthffosiaeth ar gyfer eiddo, ni fydd unrhyw daliadau seilwaith carthffosiaeth yn daladwy.

Gall y taliadau hyn fod yn daladwy hefyd os yw safle wedi cael ei ailddatblygu a bod yr ailddatblygiad hwnnw'n golygu bod y galw o'r safle'n uwch nag y bu yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Caiff y taliadau hyn eu bilio'r un pryd â'r tâl am y cysylltiad dŵr. Mae taliadau seilwaith y tu hwnt i gwmpas TAW.

Ar gyfer cysylltiadau domestig â diamedr o 25mm, neu lle bo angen cysylltiad mwy ar gyfer cysylltiad domestig â diamedr mwy, codir un tâl seilwaith safonol fesul eiddo.

Mae'r taliadau isod ar gyfer eiddo domestig safonol:

| Eitem | Gwybodaeth Ychwanegol | Tâl (£) |
|---|---|---|
| Dŵr | Tâl seilwaith | 487.00 |
| Carthffosiaeth | Tâl seilwaith | 487.00 |

## Lluosyddion Perthnasol

Y tâl ar gyfer datblygiadau sy'n cynnwys fflatiau â mesurydd unigol fesul fflat fydd 1 tâl safonol fesul fflat.

Caiff y taliadau ar gyfer datblygiadau lle mae fflatiau a wasanaethir gan swmpgyflenwad mesuredig, ac ar gyfer eiddo annomestig, eu cyfrifo drwy luosi'r tâl safonol uchod â'r lluosydd perthnasol. Cyfrifir y lluosydd perthnasol trwy rannu cyfanswm nifer yr unedau llwytho ar gyfer pob ffitiad dŵr ar y safle â 24. Y rhif hwnnw neu 1 (p'run bynnag yw'r uchaf) yw'r lluosydd perthnasol.

| Math o eiddo | Math o ddefnydd | Lluosydd Perthnasol Taliadau am Gysylltiadau Newydd | Lluosydd Perthnasol Credyd os bu'n segur am <5 Mlynedd |
|---|---|---|---|
| Preswyl | Domestig | 1 | 1 |
| Di-breswyl | Domestig | Yn seiliedig ar unedau llwytho | Yn seiliedig ar ddefnydd blaenorol |

## Unedau Llwytho

Lle bo gan eiddo ddefnydd domestig ac nad yw'r cysylltiad yn gysylltiad domestig safonol neu'n gysylltiad domestig mwy, defnyddir nifer yr unedau llwytho i bennu'r Lluosydd Perthnasol drwy gyfeirio at y tabl a'r nodiadau canlynol.

| Ffitiad Dŵr | Uned Llwytho |
|---|---|
| Seston Fflysio Toiled | 2 |
| Basn ymolchi mewn tŷ | 1.5 |
| Basn ymolchi mewn man arall | 3 |
| Bath â thapiau 20mm | 10 |
| Bath â thapiau mwy na 20mm | 22 |
| Cawod | 3 |
| Sinc â thapiau 15mm | 3 |
| Sinc â thapiau mwy na 15mm | 5 |
| Tap chwistrellu | 0.5 |
| Bidet | 1.5 |
| Offeryn domestig (yn amodol ar isafswm o chwe uned lwytho fesul tŷ) | 3 |
| Offeryn cymunedol neu fasnachol | 10 |
| Unrhyw ffitiad dŵr neu allfa arall (gan gynnwys tap ond nid troethfa na meddalydd dŵr) | 3 |

## Credydau tâl seilwaith

Lle bo safle'n ailddatblygiad a bod y Cwmni wedi darparu gwasanaethau ar gyfer y safle hwnnw o fewn 5 mlynedd i ddyddiad creu'r cysylltiad parhaol newydd cyntaf i'r datblygiad newydd, gellir lleihau cyfanswm y taliadau seilwaith dŵr ar gyfer y safle.

Caiff nifer y safleoedd domestig oedd yn bodoli ac a oedd â chysylltiad dŵr ar y safle o fewn y cyfnod o 5 mlynedd, neu yn achos safleoedd annomestig, lle bu mesurydd, a nifer y credydau sy'n ddyledus wedi eu cyfrifo'n seiliedig ar ddefnydd dŵr cyfartalog y datblygiad blaenorol yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd, eu didynnu o gyfanswm y lluosyddion perthnasol ar gyfer y cysylltiadau sy'n deillio o'r datblygiad newydd.

Bydd lluosi'r cyfanswm newydd â'r tâl safonol yn rhoi cyfanswm y tâl seilwaith dŵr ar gyfer y safle. Darperir gostyngiad tebyg mewn perthynas â'r cysylltiadau dŵr budr yn unig a oedd yn arfer gwasanaethu'r safle.

Lle bo anghydfod rhwng y Cwmni a'r unigolyn y codir y tâl seilwaith arno o ran y lluosydd perthnasol a gyfrifwyd ar gyfer datblygiad, gellir cyfeirio'r mater at yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yn y cyfeiriad a nodir ar dudalen 6.

**Nodiadau:** 1. Mae cyfeiriadau at unrhyw ffitiad yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw waith plymio, allfa, lle pwrpasol neu gynllun neu ddarpariaeth arall ar gyfer y ffitiad hwnnw. 2. Mae bath yn cynnwys baddonau trobwll a Jacwsis. 3. Mae offer domestig yn golygu offer (fel peiriannau golchi llestri, peiriannau golchi dillad ac unedau gwaredu gwastraff) mewn tŷ. 4. Mae offer cymunedol neu fasnachol yn golygu offer (fel peiriannau golchi llestri, peiriannau golchi dillad ac unedau gwaredu gwastraff) mewn man arall ar wahân i dŷ (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol).